Pecyn Dogfen Cyhoeddus


At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau

Dyddiad: 14 Mawrth 2024

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk


Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 21 MAWRTH 2024** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY FIDEO GYNADLEDDA**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2023 (copi'n amgaeedig).

## 5 PROSIECT YSBYTY CYMUNED GOGLEDD SIR DDINBYCH

Derbyn cyflwyniad i ystyried y sefyllfa bresennol o ran darparu'r prosiect gan gynnwys cefnogaeth mewn egwyddor gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

## 6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 11 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

## 7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Cael y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Joan Butterfield (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Pauline Edwards (Is-Gadeirydd)

Jeanette Chamberlain-Jones
Kelly Clewett
Bobby Feeley
Brian Jones
Terry Mendies
Raj Metri
Arwel Roberts
David Williams
Elfed Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 14 Rhagfyr 2023 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Joan Butterfield (Cadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones, Kelly Clewett, Pauline Edwards, Bobby Feeley a Terry Mendies.

**Aelod Arweiniol** – Yr oedd Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, y Cynghorydd Rhys Thomas, yn bresennol ar ôl cael gwahoddiad gan y Pwyllgor.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (NS); Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ); Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL); Uwch Swyddog Cynllunio Strategol a Thai (JA); Cydlynydd Craffu (RE); a Gweinyddwyr Pwyllgorau (NH a RTJ).

**Cynrychiolydd Clwyd Alyn:** Rachael Williams – Pennaeth Tai Fforddiadwy a Gwasanaethau i Gwsmeriaid ar gyfer eitem rhif 6.

**Cynrychiolydd Adra:** Heledd Owens – Pennaeth Cyllid ar gyfer eitem rhif 6.

**Cynrychiolydd Adra:** Rhys Parry – Cyfarwyddwr Adnoddau ar gyfer eitem rhif 6.

**Cynrychiolydd Cartrefi Conwy:** Danielle Mason – Rheolwr Eiddo a Gosod ar gyfer eitem rhif 6.

**Cynrychiolydd Cartrefi Conwy:** David Lowe – Uwch Reolwr Datblygu ar gyfer eitem rhif 6.

**Cynrychiolydd Grŵp Cynefin:** Catrin Roberts – Rheolwr Tai Fforddiadwy ar gyfer eitem rhif 6.

**Arsylwyr:** Y Cynghorydd Gareth Sandilands

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Brian Jones, Raj Metri, Arwel Roberts a David Williams.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Datganodd y Cynghorydd Kelly Clewett gysylltiad personol ag eitem rhif 6 ar y rhaglen, 'Gosod Lefelau Rhent Fforddiadwy', gan ei bod yn berchennog ar eiddo a rentir yn breifat nad ydynt yn destun rhent cymdeithasol na rhent canolradd.

## 3 PENODI IS-GADEIRYDD

Yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Peter Scott o'r Pwyllgor wedi ei benodiad yn Gadeirydd y Cyngor Sir, daeth rôl Is-gadeirydd y Pwyllgor yn wag.

Enwebwyd y Cynghorydd Pauline Edwards gan y Cynghorydd Bobby Feeley i gymryd rôl Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Partneriaethau. Eiliwyd enwebu'r Cynghorydd Edwards gan y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones. Ni dderbyniwyd enwebiadau eraill ac felly yr oedd y Pwyllgor yn unfrydol:

***Penderfynwyd:*** *penodi'r Cynghorydd Pauline Edwards yn Is-gadeirydd ar gyfer gweddill blwyddyn 2023/24 y Cyngor.*

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2023.

***PENDERFYNWYD:*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2023 fel cofnod cywir.*

Ni chodwyd unrhyw fater mewn perthynas â chynnwys y cofnodion.

## 6 GOSOD LEFELAU RHENT FFORDDIADWY

Croesawodd y Cadeirydd Swyddogion a'r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Rhys Thomas, i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad adroddiad i'r Pwyllgor ynglŷn â gosod Rhenti Tai Fforddiadwy. Nododd y Swyddogion fod yna berthynas aeddfed a chynhyrchiol gyda Chymdeithasau Tai yn y sir. Yr oedd Cymdeithasau Tai a'r Cyngor yn gweithio'n agos â'i gilydd i ddiwallu'r angen am dai yn y sir.

Arweiniodd Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai yr Aelodau drwy'r adroddiad.

Rhennid Rhent Fforddiadwy yn ddau gategori – rhent cymdeithasol a rhent canolradd. Rhent cymdeithasol oedd y math isaf o rent fforddiadwy ac mae'r rhan fwyaf o eiddo'r Cyngor a Chymdeithasau Tai (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) wedi gosod rhent ar y lefel hon. Yr oedd yn ofynnol i bob awdurdod tai lleol a Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yng Nghymru gydymffurfio â Safon Rhent a Thâl Gwasanaeth Tai Cymdeithasol. Cyflwynwyd y Safon yn rhan o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yr oedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn ymwneud â rhent canolradd. Pennwyd diffiniad Rhent Canolradd gan Lywodraeth Cymru (LlC) fel rhent sy'n cael ei osod naill ai ar gyfradd y Lwfans Tai Lleol (a bennir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio i fod y traean isaf o renti'r farchnad agored), i fyny i uchafswm o 80% o rent y farchnad; yr oedd y ffigur yn cynnwys taliadau gwasanaeth. Yr oedd Rhent Canolradd yn cael ei arwain gan y farchnad yn hytrach nag incwm ac, felly, yr oedd y codiadau rhent a welwyd yn ddiweddar yn y sector rhentu preifat yn effeithio arno.

Yr oedd Rhent Canolradd yn opsiwn a oedd ar gael i ddatblygwyr preifat ochr yn ochr â pherchnogaeth cartref â chymorth, wrth ystyried rhwymedigaethau cynllunio ar safleoedd datblygu newydd. Yn Sir Ddinbych yr oedd 15 o anheddau yn eiddo i 3 datblygwr preifat gwahanol, a oedd yn cael eu rhentu fel eiddo canolradd.

Yr oedd Tai Fforddiadwy yn y sir ar gael drwy gofrestr Tai Teg a weithredid gan Grŵp Cynefin. Yr oedd 960 o ymgeiswyr ar hyn o bryd yn gwneud cais am Lety Rhent Canolradd, sydd wedi cynyddu'n sylweddol. Gellid egluro'r cynnydd yn y galw oherwydd yr ansicrwydd yn y farchnad swyddi, Brexit a Covid, ac yr oedd prisiau eiddo wedi bod yn cynyddu'n aruthrol hefyd.

Yr oedd problemau wedi bod yn ymwneud â chynnwys taliadau gwasanaeth mewn rhent canolradd, a chynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn. Canlyniad y cyfarfodydd hyn oedd y cytunwyd bod canllawiau Llywodraeth Cymru ychydig yn aneglur, ac felly cyhoeddwyd llythyr (a ddosbarthwyd ymlaen llaw, sef Atodiad (iv) yr adroddiad) i egluro unrhyw bryderon gan nodi y dylai Rhent Canolradd gynnwys unrhyw daliadau gwasanaeth.

Yr oedd yna ymrwymiad pellach gan Lywodraeth Cymru i adolygu lefelau Rhent Canolradd yn rhan o bolisi yn y dyfodol; fodd bynnag, nid oedd unrhyw amserlen ar gyfer hynny ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr Cynllunio Strategol a Thai am yr adroddiad a chroesawu cwestiynau gan yr Aelodau.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y taliadau gwasanaeth a holi a oedd hyn yn ffordd gan y datblygwyr o gynyddu rhent. Dywedodd Pennaeth Tai Fforddiadwy (Clwyd Alyn) fod rhai ardaloedd cymunedol yn cael eu cynnal a chadw gan y datblygwr, yr oedd tâl blynyddol ar gyfer pob eiddo a drosglwyddid i'r preswylwyr fel tâl gwasanaeth.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Cymdeithasau Tai'n gallu addasu'r rhent a thaliadau gwasanaeth pe bai tenant yn cael anawsterau ariannol. Dywedodd Cynrychiolydd Clwyd Alyn eu bod yn archwilio ffyrdd o gynorthwyo tenantiaid i dalu eu rhent drwy roi talebau bwyd ac ynni – yr oedd ganddynt Gronfa i Breswylwyr wedi ei neilltuo ar gyfer amgylchiadau o'r fath – fodd bynnag, nid oeddynt yn dallu atal y taliadau gwasanaeth. Ymgynghorwyd â phreswylwyr er mwyn canfod ffyrdd i ostwng y tâl gwasanaeth cymaint â phosibl; er enghraifft, drwy dorri'r glaswellt mewn ardaloedd cymunedol bob 3 wythnos yn hytrach na phob pythefnos.

Trafododd yr Aelodau a oedd y tâl gwasanaeth yn cynnwys cynnal a chadw ardaloedd chwarae, ac a oeddynt yn dod yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus drwy Gyngor Sir Ddinbych (CSDd). Dywedodd Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad y byddent yn codi'r cwestiwn hwn gyda Phennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd, a chael ymateb ysgrifenedig i'r ymholiad i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod. Dywedodd Adra fod ganddynt ardaloedd chwarae cymunedol ar rai o'u hystadau, ond nid oedd gan Glwyd Alyn unrhyw rai. Yr oedd gan rai datblygwyr ardaloedd chwarae ar yr ystadau yr oeddynt yn eu rheoli, ac yr oedd costau cynnal a chadw ar gyfer y rheiny yn cael eu cynnwys yn y taliadau gwasanaeth.

Trafododd yr Aelodau'r cynlluniau cyfathrebu rhagweithiol yr oedd gan y Cymdeithasau Tai ar waith i gynorthwyo tenantiaid ag incwm isel, a holwyd sut oedd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cyfathrebu'r gefnogaeth a oedd ar gael gydag aelwydydd a oedd yn cael y trafferthion mwyaf.

Dywedodd cynrychiolwyr o Glwyd Alyn ac Adra eu bod yn rhagweithiol iawn wrth ddarparu gwybodaeth i denantiaid am y gefnogaeth a oedd ar gael iddynt. Yr oedd ôl-ddyledion tenantiaid yn cael eu monitro'n ofalus, a gwneid cysylltiad uniongyrchol â'r tenant er mwyn archwilio dulliau posibl o gynorthwyo a allai fod ar gael iddynt. Hysbysid tenantiaid am asiantaethau a allai eu cynorthwyo i gael mynediad at unrhyw grantiau / cyllid yr oedd ganddynt hawl i'w cael. Cyn neilltuo eiddo i denantiaid, cynhelid gwiriad fforddiadwyedd ar bob tenant er mwyn sicrhau eu bod yn gallu fforddio'r eiddo. Yr oedd Swyddogion Ymyrraeth Gynnar hefyd ar waith i gynorthwyo tenantiaid a oedd yn ei chael yn anodd. Rhoddodd pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig amlinelliad o'i wasanaethau cefnogi ac ymyrraeth gynnar a oedd ar gael ac yn cael eu darparu i denantiaid a oedd yn cael trafferthion. Pwysleisiodd pob un fod cynnal iechyd a lles eu tenantiaid yn rhan annatod o'u busnes o ddydd i ddydd, ac yn elfen graidd y tu ôl i'w sefydliad.

Holodd yr Aelodau a oedd pob Cymdeithas Tai'n cyfathrebu gyda'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth. Eglurodd Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad fod perthynas waith agos iawn rhwng Cymdeithasau Tai a'r Cyngor. Cynhelid cyfarfodydd rheolaidd er mwyn cael trafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol a phryderon a oedd yn dod i'r amlwg.

Holodd yr Aelodau a oedd yr Heddlu'n bresennol yn y cyfarfodydd rheolaidd a gynhelid pe bai yna denant trafferthus – byddai hyn yn caniatáu i'r wybodaeth gael ei rhannu. Dywedodd Rheolwr Tai Fforddiadwy nad oedd yr Heddlu'n bresennol yn y cyfarfodydd hyn am eu bod yn cael eu cynnal er mwyn trafod arferion a phrosesau yn bennaf. Os oedd unrhyw achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, cynhelid cyfarfod amlasiantaethol ar wahân.

Gofynnodd yr Aelodau ynglŷn â chytundebau tenantiaeth ac a oeddynt yr un fath yn yr holl Gymdeithasau Tai. Eglurodd Pennaeth Tai Fforddiadwy (Clwyd Alyn) fod gan bob Cymdeithas Tai gontract safonol, a elwid hefyd yn Gontractau Meddiannaeth,

ar gyfer tenantiaid Rhent Canolradd, ac yr oedd yr un polisïau a gweithdrefnau wedi eu hamlinellu ynddynt. Yr oedd y contractau hyn yn gontractau treigl, ac yr oedd gan bob tenant Swyddog Tai dynodedig a oedd ar gael i roi cyngor iddynt a'u cyfeirio at asiantaethau a gwasanaethau eraill a fyddai efallai'n gallu darparu cefnogaeth iddynt.

Ar ddiwedd trafodaeth fanwl diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a chynrychiolwyr yr holl landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a oedd yn bresennol am roi atebion cynhwysfawr ac adeiladol i gwestiynau'r Aelodau. Bu i'r Pwyllgor:

***Benderfynu:*** *yn amodol ar y sylwadau a'r arsylwadau uchod –*

*(i)* *cadarnhau ei fod wedi darllen a deall y broses o osod rhenti canolradd; a*
*(ii)* *chefnogi parhad y gwaith gyda Landlordiaid Preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i weithredu rhenti canolradd yn strategol lle bo'n briodol, er mwyn datblygu cymunedau cynaliadwy a chynnal tenantiaethau fforddiadwy.*

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu yr adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Trefnwyd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer 8 Chwefror 2024. Nodwyd un eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf:

- Prosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych – hysbyswyd yr Aelodau bod yr eitem wedi ei gohirio dros dro tan gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2024.

Trefnwyd cyfarfod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar gyfer 29 Ionawr, ac anogwyd yr Aelodau i lenwi'r ffurflen berthnasol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) os oedd unrhyw eitemau yr oedd Aelodau eisiau eu hystyried yn y cyfarfod. Nid ychwanegwyd unrhyw eitemau i raglen waith y Pwyllgor yng nghyfarfod diwethaf Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu.

Atodiad 3 oedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet er gwybodaeth i'r Aelodau. Yr oedd Atodiad 4 yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn ag argymhellion o'r cyfarfod blaenorol.

Amlygodd y Cydlynydd Craffu ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor enwebu dirprwy gynrychiolydd newydd ar gyfer Grŵp Craffu Cyfalaf yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Peter Scott.

Gofynnwyd am enwebiadau gan yr Aelodau. Enwebodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones ei hun. Gan na chafwyd unrhyw enwebiadau eraill, cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones yn cael ei phenodi'n ddirprwy gynrychiolydd y Pwyllgor ar Grŵp Craffu Cyfalaf.

Bu i’r Pwyllgor:

***Benderfynu:*** **–**

***(i)*** ***cadarnhau ei raglen gwaith i’r dyfodol fel y’i nodir yn Atodiad 1, yn amodol ar aildrefnu eitem Prosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych dros dro ar gyfer cyfarfod ym mis Mawrth 2024 yn lle cyfarfod ym mis Chwefror 2024; a***

***(ii)*** ***phenodi’r Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones i wasanaethu fel dirprwy gynrychiolydd y Pwyllgor ar Grŵp Craffu Cyfalaf, i ddirprwyo yn absenoldeb cynrychiolydd penodedig y Pwyllgor yn ôl yr angen.***

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Canolfan Asesu Plant Bwthyn y Ddôl: Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley, cynrychiolydd Pwyllgorau Craffu Cyngor Sir Ddinbych ar Fwrdd Prosiect y cyfleuster hwn, fod y gwaith adeiladu’n mynd rhagddo’n dda ac ymddengys fod popeth ar y trywydd iawn o ran amser. Dywedodd hefyd fod Pennaeth Gwasanaethau Plant y Cyngor yn awyddus i ddarparu adroddiad am y prosiect i’r Aelodau yn y dyfodol agos.

Herio Gwasanaeth – Gwasanaeth Perfformiad, Digidol ac Asedau: Hysbyswyd yr Aelodau gan yr Is-gadeirydd, cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Herio Gwasanaeth hwn, fod y cyfarfod Herio Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth hwn i fod i gael ei gynnal yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Anogodd Aelodau a oedd â chwestiynau neu bryderon yn ymwneud â’r Gwasanaeth hwn i’w hanfon ymlaen iddi cyn gynted â phosibl, er mwyn iddi allu eu codi yn y cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Aelodau am eu presenoldeb yn y cyfarfod a therfynwyd y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am.

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **21 Mawrth 2024** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Catrin Roberts, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Rhian Evans, Cyd-lynydd Craffu** |
| **Teitl** | **Rhaglen Waith Craffu** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol drafft (gweler Atodiad 1). Wrth ei hadolygu gofynnir i'r Pwyllgor adlewyrchu ar sut y gall Craffu gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'i nod o ddod yn Ddi-Garbon Net ac yn Ecolegol Bositif erbyn 2030, tra ar yr un pryd flaenoriaethu materion sydd yn nhŷb y Pwyllgor yn bwysig craffu arnynt.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

3.1 ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn cymeradwyo, diwygio neu'n newid ei raglen gwaith i'r dyfodol fel y gwêl yn briodol; ac

3.2 yn penderfynu os oes unrhyw prif bwyntiau neu themau o'r cyfarfod hwn y dymuna dynnu sylw atynt trwy'r wasg a/neu'r cyfryngau cymdeithasol; ac

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Adran 7 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Craffu, yn ogystal â rheolau gweithdrefnau a trafodaethau.

4.2 Mae'r Cyfansoddiad yn amodi bod yn rhaid i bwyllgorau craffu'r Cyngor osod, ac adolygu'n rheolaidd, rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Trwy adolygu a blaenoriaethu materion, gall aelodau sicrhau bod y rhaglen waith yn cyflwyno agenda a arweinir gan yr aelodau.

4.3 Arfer sydd wedi'i fabwysiadu yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd yw bod pwyllgorau craffu'n cyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyrir mewn unrhyw gyfarfod i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Nod y dull hwn yw hwyluso trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.

4.4 Yn y blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru (LlC) ac Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau rôl craffu ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio craffu fel modd o ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. O hyn allan, disgwylir i graffu ymgysylltu'n well ac yn amlach â'r cyhoedd gyda bwriad i sicrhau penderfyniadau gwell a fydd yn y pen draw yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion. Bydd Archwilio Cymru yn mesur effeithiolrwydd craffu wrth gyflawni'r disgwyliadau hyn.

4.5 Gan ystyried y weledigaeth genedlaethol ar gyfer craffu a chanolbwyntio ar yr un pryd ar flaenoriaethau lleol, gwnaeth y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (GCIGC) argymell y dylai pwyllgorau craffu'r Cyngor, wrth benderfynu ar eu rhaglenni gwaith, ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- arbedion ar y gyllideb;
- cyflawni Themau y Cynllun Corfforaethol (gyda phwyslais arbennig ar y modd o'u cyflawni yn ystod cyfnod o galedi ariannol);

- unrhyw eitemau eraill a gytunwyd gan y Pwyllgor Craffu (neu'r GCIGC) fel blaenoriaeth uchel (yn seiliedig ar y meini prawf profion PAPER - gweler ochr gefn y 'Ffurflen Cynnig gan Aelodau' yn Atodiad 2);
- Materion brys na ragwelwyd, neu flaenoriaeth uchel; a
- Cefnogi gwaith adfer y Cyngor mewn perthynas ag effeithiau'r argyfwng COVID-19 ar wasanaethau'r Cyngor, yr economi leol a chymunedau'r sir

4.6 <u>Ffurflenni Cynnig ar gyfer Craffu</u>

Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.2 uchod, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i bwyllgorau craffu baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw'r swyddogion o'r farn fod pwnc yn haeddu amser i gael ei drafod ar raglen fusnes Craffu, mae'n rhaid iddynt wneud cais ffurfiol i'r GCIGC i Graffu ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynnig' sy'n egluro pwrpas, pwysigrwydd a chanlyniadau posibl y pynciau a awgrymir.

4.7 Er mwyn gwneud gwell defnydd o amser craffu drwy ganolbwyntio adnoddau pwyllgorau i archwilio testunau'n fanwl, gan ychwanegu gwerth drwy'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer preswylwyr, penderfynodd y GCIGC y dylai'r aelodau, yn ogystal â swyddogion, lenwi 'ffurflenni cynnig ar gyfer craffu' yn amlinellu pam eu bod yn credu y byddai'r testun yn elwa o fewnbwn craffu. Mae copi o'r 'ffurflen gynnig gan aelod' i'w gweld yn Atodiad 2. Mae ochr gefn y ffurflen hon yn cynnwys siart lif sy'n rhestru'r cwestiynau y dylai aelodau eu hystyried wrth baratoi i gynnig eitem ar gyfer craffu, ac y dylai pwyllgorau eu gofyn wrth benderfynu ar addasrwydd testun i'w gynnwys ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol craffu. Os, ar ôl cwblhau'r broses hon, y penderfynir nad yw'r testun yn addas i'w archwilio'n ffurfiol gan bwyllgor craffu, yna gellir ystyried dulliau eraill o rannu'r wybodaeth neu archwilio'r mater e.e. darparu 'adroddiad gwybodaeth', neu os yw'r mater yn un o natur leol gellir ei archwilio gan y Grŵp Ardal Aelodau (GAA) perthnasol. Ni fydd unrhyw eitemau'n cael eu cynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol heb lenwi 'ffurflen gynnig ar gyfer craffu' a derbyn cymeradwyaeth i'w gynnwys ar y rhaglen gan y GCIGC. Mae cymorth ar gael i lenwi'r ffurflenni gan y Cydlynydd Craffu.

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet

4.8 Wrth benderfynu ar eu rhaglen gwaith i'r dyfodol mae'n ddefnyddiol i'r pwyllgorau craffu ystyried amserlen rhaglen waith y Cabinet. At y diben hwn, mae copi o rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet ynghlwm yn Atodiad 3.

Datblygiad Penderfyniadau'r Pwyllgor

4.9 Yn Atodiad 4 o'r adroddiad hwn mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori'r aelodau ar ddatblygiadau yn sgîl y penderfyniadau.

## 5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu

5.1 Dan drefniadau craffu'r Cyngor mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (GCIGC) yn gweithredu fel pwyllgor cydlynu. Cyfarfu'r Grŵp ar gyfer 29 Ionawr 2024. Yn ystod y cyfarfod hwnnw cododd aelod y ffaith nad oedd rheolaeth a gweithrediad y contract ar gyfer y 'Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref' wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu i'w adolygu yn unol ag argymhelliad y Cabinet wrth ddyfarnu'r contract. Mae'r adolygiad bellach wedi'i restru i'w ystyried gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 4 Gorffennaf 2024 (gweler Atodiad 1).

5.2 Mae cyfarfod nesaf y Grŵp i'w gynnal ar 18 Mawrth 2024. Adroddir ar lafar yn y cyfarfod ar 21 Mawrth ar unrhyw faterion a gyfyd yn y cyfarfod uchod fydd yn effeithio yn uniongyrchol ar raglen waith y Pwyllgor hwn.

## 6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

6.1. Bydd craffu effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gyflawni ei Gynllun Corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion. Bydd datblygu ac adolygu rhaglen waith gydlynol yn barhaus yn cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu ei themau corfforaethol, i wella canlyniadau i breswylwyr tra hefyd yn dygymod â phwysau ar adnoddau ac ar y gyllideb.

6.2. Er bydd y penderfyniad ar flaenraglen waith y Pwyllgor ei hun yn gyfraniad niwtral tuag at nod y Cyngor o ddod yn Ddi-Garbon Net ac yn Ecolegol Bositif

erbyn 2030, gall y Pwyllgor, trwy graffu'n effeithol ar yr holl faterion a ystyrir ganddo gefnogi'r gwaith o gyflawni'r uchelgais hwn.

## 7. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

7.1. Mae'n bosib y bydd yn rhaid i wasanaethau neilltuo amser swyddog i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r eitemau a nodwyd yn y rhaglen waith a chydag unrhyw gamau gweithredu yn dilyn ystyried yr eitemau hynny.

## 8. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

8.1. Nid oes Asesiad o Effaith ar Les wedi ei wneud mewn perthynas â phwrpas neu gynnwys yr adroddiad hwn.  Ond bydd y Pwyllgor Craffu, drwy ei waith yn archwilio darpariaeth gwasanaethau, polisïau, gweithdrefnau ac argymhellion, yn ystyried eu heffaith neu eu heffaith posib ar yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a'r amcanion o ran lles a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 9. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

9.1. Does dim angen cynnal ymgynghoriad ar yr adroddiad hwn  Fodd bynnag, mae'r adroddiad ei hun a'r ystyriaeth a roir gan y Pwyllgor i'w raglen waith ar gyfer y dyfodol yn gyfystyr ag ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor o ran ei raglen waith.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes risg wedi ei ganfod o ran y Pwyllgor yn ystyried ei raglen waith.  Fodd bynnag, drwy adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol yn rheolaidd, gall y Pwyllgor sicrhau y rhoddir ystyriaeth ac yr archwilir meysydd risg pan eu bod yn cael eu nodi, a gwneir argymhellion gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r risgiau hynny.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Mae Adran 7.11 Cyfansoddiad y Cyngor yn datgan y bydd pwyllgorau craffu ac/neu'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn gyfrifol am osod eu rhaglenni gwaith eu hunain, gan ystyried dymuniadau Aelodau o'r Pwyllgor nad ydynt yn aelodau o'r grŵp gwleidyddol mwyaf ar y Cyngor.

**Note: Items entered in italics have <u>not</u> been approved for submission by the Committee. Such reports are listed here for information, pending formal approval.**

| Meeting | Lead Member(s) | Item (description / title) | | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 16 May | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 4 July | **Leader**<br><br>(NWEAB Programme Office reps also to attend) | 1. | North Wales Economic Ambition Board Annual Report 2023/24 | To consider the Board's Quarter4/Annual Report on its work and progress during 2023/24 | To ensure that the Board delivers its priorities and projects in line with the stipulations and conditions laid out between the Board and the UK & Welsh Governments | NWEAB/Tony Ward | July 2023 |
| | **Cllr. Elen Heaton** | 2. | Annual Report on Adult Safeguarding 2023/24 | To consider the annual report on adult safeguarding, and information in place to meet the statutory requirements of the Social Services and Well-being Act 2014 and an evaluation of the financial and resource impact of the Supreme Court's 2014 Judgement on deprivation of liberty | An evaluation of whether the Authority is meeting its statutory duty with respect to adult safeguarding and has sufficient resources to undertake this work along with the additional work in the wake of the | David Soley/Michael Reay/Nerys Tompsett | July 2023 |

| Meeting | Lead Member(s) | Item (description / title) | | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | on the Service and its work<br><br>(data to include actual numbers in each category as well as % figures and the actual number of allegations proven) | Supreme Court's judgement | | |
| | **Cllr. Barry Mellor** | 3. | Household Waste Recycling Centres | To review the management and operation of the contract with Bryson Recycling Ltd (including whether the contract had delivered the anticipated level of savings and generated projected income levels) | Support the delivery of a greener Denbighshire and a well-run, high performing Council | Paul Jackson/Simon Lammond | By SCVCG January 2024 |
| | | | | | | | |
| 12 September | **Cllr. Rhys Thomas** | 1. | Community Safety Partnership **[Crime and Disorder Scrutiny Committee]** | To detail the Partnership's achievement in delivering its 2023/24 action plan and its progress to date in delivering its action plan for 2024/25. The report to include financial sources and the progress | Effective monitoring of the CSP's delivery of its action plan for 2023/24 and its progress to date in delivering its plan for 2024/25 will ensure that the CSP delivers the | Helen Vaughan-Evans/Nicola Kneale/Sian Taylor | July 2023 |

| Meeting | Lead Member(s) | Item (description / title) | | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | made in spending the allocated funding.<br><br>(report to include actual numbers as well as percentages to enable the Committee to effectively evaluate the impact of measures put in place) | services which the Council and local residents require | | |
| | **Cllr. Elen Heaton** | 2. | North Wales Regional Partnership Board Annual Report 2023/24 | To provide an overview of the Regional Partnership Board's activities during 2023/24 and its priority areas for 2024/25 | Ensure that the Board is working effectively to support the delivery seamless health, social care and well-being services for Denbighshire residents and the wider North Wales region | Nicola Stubbins/Head of Regional Collaboration | July 2023 |
| | | | | | | | |
| 7 November | **Cllr. Barry Mellor** | 1. | Blue Flag Status for Denbighshire's Beaches<br><br>**(Reps from NRW & Dŵr Cymru Welsh Water to** | To explore the work being undertaken with partner organisations in a bid to received blue flag status accreditation for as many as possible of the county's beaches | To seek assurances or make recommendations to ensure that all partners are working effectively | Tony Ward/Emlyn Jones | By SCVCG July 2023 (in response to a Notice of Motion to County Council) |

| Meeting | Lead Member(s) | Item (description / title) | | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **be invited to attend)** | | together to achieve the accreditation with a view to boosting the local tourism and recreational economy and ultimately lead to wider economic benefits and support the delivery of a greener, fairer, safer and more equal Denbighshire | | |
| | | | | | | | |
| 19 December | | | | | | | |
| | | | | | | | |

**Future Issues**

| Item (description / title) | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

**For future years**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

**Information/Consultation Reports**

| Information / Consultation | Item (description / title) | Purpose of report | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|
| **Information Report**<br>(for circulation June 2024) | Quarterly Monitoring of External Care Providers | To provide details of the regular monitoring of external care service providers commissioned by the council for social care services, identifying any escalating concerns or other areas of concern | Ben Chandler/Liana Duffy/Zoe Bradley-Ashcroft | By SCVCG 2018 |
| **INFORMATION REPORT**<br>(for circulation in Sept (Q1), Nov/Dec (Q2) & February (Q3) each year)<br><br>**Feb, Sept & Nov 2024** | North Wales Economic Ambition Board | To provide information on the Board's performance and progress in delivering its priorities and projects in line with the stipulations and conditions laid out between the Board and the UK & Welsh Governments | NWEAB/Tony Ward | December 2021 |
| **INFORMATION REPORT**<br>(September 2024) | Collaborative Procurement Service's Annual Report | To receive information on the collaborative Service's activity and performance during 2023/24 | Gary Williams/Lisa Jones/Karen Bellis | September 2023 |

Updated 11/03/2024 – RhE

**Note for officers – Committee Report Deadlines**

| Meeting | **Deadline** | Meeting | **Deadline** | Meeting | **Deadline** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 16 May | **1 May** (due to B/H) | 4 July | 20 June | 12 September | 29 August |

Partnerships Scrutiny Work Programme.doc

**Atodiad 2**

| Ffurflen Gynnig ar gyfer Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Craffu | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | |
| **AMSERLEN I'W HYSTYRIED** | |
| **TESTUN** | |
| **Beth sydd angen ei graffu arno (a pham)?** | |
| **Ydi'r mater yn un o bwys i drigolion/busnesau lleol?** | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi craffu yn gallu dylanwadu ar bethau a'u newid?**<br>(Os 'ydi' nodwch sut rydych chi'n meddwl y gall craffu ddylanwadu neu newid pethau) | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi'r mater yn ymwneud â gwasanaeth neu faes sy'n tanberfformio?** | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi'r mater yn effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ardal fawr o'r Sir?**<br>(Os 'ydi', rhowch syniad o faint y grŵp neu'r ardal yr effeithir arni) | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi'r mater yn gysylltiedig â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor?**<br>(Os 'ydi' nodwch pa flaenoriaethau) | **YDI/NAC YDI** |
| **Hyd y gwyddoch, oes yna rywun arall yn edrych ar y mater hwn?**<br>(Os 'oes', nodwch pwy sy'n edrych arno) | **OES/NAC OES** |
| **Os derbynnir y testun ar gyfer craffu, pwy fyddai arnoch chi eisiau eu gwahodd e.e. Aelod Arweiniol, swyddogion, arbenigwyr allanol, defnyddwyr y gwasanaeth?** | |
| **Enw'r Cynghorydd/Aelod Cyfetholedig** | |
| **Dyddiad** | |

**Ystyried addasrwydd pwnc ar gyfer craffu**

**Ffurflen Gynnig / Cais a dderbyniwyd**

(dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhesymau dros wneud cais)

**Ydi o'n bodloni'r gofynion canlynol?**

- **Diddordeb Cyhoeddus** – ydi'r mater o bwys i drigolion?
- **Effaith**– fedr craffu yn gael effaith ar bethau a'u newid?
- **Perfformiad** – ydi o'n wasanaeth neu faes sy'n tanberfformio?
- **Graddfa** – ydi o'n effeithio ar nifer o drigolion neu ardal ddaearyddol fawr?
- **Ailadrodd** – ydi'r mater yn destun craffu/ymchwiliad gan berson neu gorff arall?

**NAC YDI**

Dim gweithredu pellach gan y Pwyllgor Craffu. Gellir ei gyfeirio at gorff arall neu ofyn am adroddiad er gwybodaeth.

**YDI**

- Penderfynu ar y canlyniadau a ddymunir
- Penderfynu ar gwmpas a swmp y gwaith craffu sydd ei angen a'r dull mwyaf priodol o graffu (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp tasg a gorffen neu aelod cyswllt ac ati)
- Os penderfynir sefydlu grŵp tasg a gorffen, dylid penderfynu ar amserlen yr ymchwiliad, pwy fydd yn rhan o'r ymchwiliad, beth yw'r gofynion ymchwilio, a oes angen cyngor arbenigol a thystion, a beth yw'r trefniadau adrodd ac ati.

**Appendix 3**

# Cabinet Forward Work Plan

| Meeting | Item (description / title) | | Purpose of Report | Decision required (yes/no) | Author – Lead member and contact officer | Date Entered / Updated By |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| **23 April** | 1 | North East Wales Archive Project | To update Cabinet in respect of the NLHF application outcome, and to seek a decision re the next steps | Yes | Cllr Emrys Wynne<br>Lead Officer/Report Author – Liz Grieve/ Craig Berry, Sian Lloyd Price | |
| | 2 | Denbighshire's draft Local Housing Market Assessment | To seek Cabinet approval of the assessment for submission to Welsh Government | Yes | Cllr Rhys Thomas<br>Lead Officer/Report Author – Angela Loftus/Sue Lewis | |
| | 3 | Sustainable Communities for Learning – Rolling Programme | To approve the draft proposals for the next stage of the Sustainable Communities for Learning programme for submission to Welsh Government | Yes | Cllr Gill German<br>Lead Officer/Report Author – Geraint Davies/James Curran | |
| | 4 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Cllr Gwyneth Ellis<br>Lead Officer/Report Author Liz Thomas | Standing Item |
| | 5 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Lead Officer – Scrutiny Coordinators | Standing Item |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **21 May** | 1 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Cllr Gwyneth Ellis<br>Lead Officer/Report Author Liz Thomas | Standing Item |

**Appendix 3**

# Cabinet Forward Work Plan

| Meeting | | Item (description / title) | Purpose of Report | Decision required (yes/no) | Author – Lead member and contact officer | Date Entered / Updated By |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Lead Officer – Scrutiny Coordinators | Standing Item |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **25 June** | 1 | Council Performance Self-Assessment 2023 to 2024 (year-end) | To consider a report by the Strategic Planning Team for Council to approve the Performance Self-Assessment 2023 to 2024. | Tbc | Cllr Gwyneth Ellis Lead Officer/Report Author – Helen Vaughan-Evans / Iolo McGregor, Emma Horan | |
| | 2 | Reviewed and updated Denbighshire County Council's Climate and Ecological Change Strategy (2021-2030) | To consider the reviewed and updated Climate and Ecological Change Strategy prior to its submission to Council for approval | Yes | Cllr Barry Mellor Lead Officer/Report Author – Gary Williams / Liz Wilcox-Jones / Helen Vaughan-Evans | |
| | 3 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Cllr Gwyneth Ellis Lead Officer/Report Author Liz Thomas | Standing Item |
| | 4 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Lead Officer – Scrutiny Coordinators | Standing Item |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **30 July** | 1 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Cllr Gwyneth Ellis Lead Officer/Report Author Liz Thomas | Standing Item |

**Appendix 3**

# Cabinet Forward Work Plan

| Meeting | Item (description / title) | | Purpose of Report | Decision required (yes/no) | Author – Lead member and contact officer | Date Entered / Updated By |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Lead Officer – Scrutiny Coordinators | Standing Item |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **24 Sept** | 1 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Cllr Gwyneth Ellis Lead Officer/Report Author Liz Thomas | Standing Item |
| | 2 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Lead Officer – Scrutiny Coordinators | Standing Item |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **22 Oct** | 1 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Cllr Gwyneth Ellis Lead Officer/Report Author Liz Thomas | Standing Item |
| | 2 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Lead Officer – Scrutiny Coordinators | Standing Item |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **19 Nov** | 1 | Council Performance Self-Assessment Update – July to September (QPR2) | To consider a report by the Strategic Planning Team for Council to approve the Performance Self-Assessment July to September | Tbc | Cllr Gwyneth Ellis Lead Officer/Report Author – Helen Vaughan-Evans/Iolo McGregor, Emma Horan | |
| | 2 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Cllr Gwyneth Ellis | Standing Item |

**Appendix 3**

# Cabinet Forward Work Plan

| Meeting | Item (description / title) | | Purpose of Report | Decision required (yes/no) | Author – Lead member and contact officer | Date Entered / Updated By |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Lead Officer/Report Author Liz Thomas | |
| | 3 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Lead Officer – Scrutiny Coordinators | Standing Item |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **17 Dec** | 1 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Cllr Gwyneth Ellis Lead Officer/Report Author Liz Thomas | Standing Item |
| | 2 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Lead Officer – Scrutiny Coordinators | Standing Item |
| | | | | | | |



*<u>Note for officers – Cabinet Report Deadlines</u>*

| *Meeting* | ***Deadline*** | *Meeting* | ***Deadline*** | *Meeting* | ***Deadline*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| *23 April* | ***9 April*** | *21 May* | ***7 May*** | *25 June* | ***11 June*** |

<u>Updated 26/02/2024 – KEJ</u>

Cabinet Forward Work Programme.doc

**Appendix 4**

**Progress with Committee Resolutions**

| Date of Meeting | Item number and title | Resolution | Progress |
|---|---|---|---|
| **14 December 2023** | **6. Setting of Affordable Rent Levels** | ***__Resolved__:*** *subject to the above comments and observations to –*<br>*(i) confirm that it had read and understood the process of setting intermediate rents; and*<br>*(ii) support the continuation of the work with Private Landlords and Registered Social Landlords (RSLs) to strategically implement intermediate rents where appropriate to ensure the development of sustainable communities and maintain affordable tenancies.* | Lead Member and officers informed of the Committee's recommendations |
| | **7. Scrutiny Work Programme** | ***__Resolved__:*** **–**<br>*(i) to confirm its forward programme as set out in Appendix 1, subject to the North Denbighshire Community Hospital Project item being provisionally rescheduled from the February 2024 meeting to the March 2024 meeting; and*<br>*(ii) to appoint Councillor Jeanette Chamberlain-Jones to serve as the Committee's substitute representative on the Capital Scrutiny Group (CSG), to deputise in the absence of the Committee's appointed representative as and when required.* | (i) The North Denbighshire Community Hospital Project features on the current meeting's business agenda; and<br>(ii) Relevant officers informed of the appointment of Councillor Chamberlain-Jones as the substitute representative on the CSG |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag